Senedd Cymru
**Ymweld a Dysgu**

# Mae eich Senedd yn newid:

## Beth sydd angen i chi ei wybod



senedd.cymru

# Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl.

Mae’r Senedd, fel y’i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**© Hawlfraint Comisiwn Senedd Cymru 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Senedd Cymru Cymru sy’n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Mae eich Senedd yn newid

## Bydd yr etholiad ar 7 Mai 2026 yn gweld y newid mwyaf i'r Senedd ers 25 mlynedd.

Mae'r llyfryn hwn yn trafod rhai o'r newidiadau yn fanylach, ond dyma'r pum peth allweddol y mae angen i chi eu gwybod:

**96 Aelod:** O'r etholiad ym mis Mai 2026 ymlaen, bydd gan Senedd Cymru 96 o Aelodau, yn cynrychioli cymunedau ledled Cymru.

**System bleidleisio newydd:** Bydd gan bawb 16 oed a throsodd un bleidlais, i ddewis plaid wleidyddol neu ymgeisydd annibynnol.

**Etholaethau newydd:** Bydd Cymru yn cael ei rhannu’n 16 etholaeth newydd. Bydd pob etholaeth yn ethol chwe Aelod.

**Rheolau newydd:** Bydd yn rhaid i unrhyw un sy'n sefyll etholiad fod yn byw yng Nghymru.

**Etholiadau mwy aml:** Bydd etholiadau’r Senedd yn cael eu cynnal bob pedair blynedd.

# Pam mae hyn yn bwysig?

Mae gan Gymru ei senedd ei hun – sef Senedd Cymru. Felly, Senedd Cymru, nid Senedd y DU, sy'n pasio deddfau am bob math o bethau sy'n effeithio ar eich bywyd bob dydd yng Nghymru.

Mae cyfreithiau Cymru yn ystyried amgylchiadau yng Nghymru, a allai fod yn wahanol i rannau eraill o'r DU.

Felly, bydd gan yr Aelodau o'r Senedd rydych yn eu hethol ym mis Mai 2026 y pŵer i wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar bawb yng Nghymru.

• Sganiwch fi •

**Cewch wybod mwy am beth sydd wedi'i ddatganoli i Gymru a beth sydd wedi'i gadw gan Senedd y DU a Llywodraeth y DU drwy fynd i senedd.cymru/pwerau.**

**Gall y Senedd wneud cyfreithiau mewn meysydd gan gynnwys:**

- ysbytai a meddygon teulu
- ysgolion
- teithio
- fysiau a'r rheilffyrdd
- ffermio ac anifeiliaid
- yr amgylchedd
- y Gymraeg

**A oeddech chi'n gwybod?**

Cymru oedd y wlad gyntaf yn y Deyrnas Unedig i gyflwyno taliadau am fagiau siopa untro yn 2011.

Mae deddfau eraill a basiwyd gan y Senedd sydd ond yn berthnasol i Gymru yn cynnwys y terfyn cyflymder o 20mya, a chaniatâd tybiedig ar gyfer rhoi organau.

# Faint o Aelodau fydd gan y Senedd?

## O fis Mai 2026, bydd gan y Senedd 96 o Aelodau.

Ers ei sefydlu 25 mlynedd yn ôl, mae'r Senedd wedi cael yr un nifer o Aelodau er bod ei phwerau wedi cynyddu'n sylweddol.


Caiff bellach ddeddfu a chodi trethi – penderfyniadau sy'n effeithio ar fywydau pob un person yng Nghymru.

Bydd cael mwy o Aelodau yn rhoi mwy o allu i'r Senedd herio ac edrych ar gynlluniau a gwariant Llywodraeth Cymru ar faterion pwysig fel **ysbytai**, **ysgolion** a **thrafnidiaeth**.

Bydd hyn yn rhoi llais cryfach i'ch cymuned yn y penderfyniadau hyn.

Bydd cael 96 o Aelodau yn golygu y bydd y Senedd yn debycach i wledydd eraill o faint tebyg i Gymru, fel yr Alban sydd â 129 o Aelodau a Gogledd Iwerddon sydd â 90.

**Bydd hyn yn golygu cynrychiolaeth gryfach i chi, eich teulu a'ch cymuned.**



# Sut mae'r system bleidleisio yn newid?

## Os ydych chi'n 16 oed neu'n hŷn ac yn byw yng Nghymru, fe allwch chi bleidleisio yn Etholiad y Senedd 2026.

Yn 2026, Cymru fydd y senedd gyntaf ym Mhrydain Fawr i ddefnyddio cynrychiolaeth gyfrannol i ethol ei holl Aelodau. O dan y system hon, bydd nifer y seddi y bydd plaid neu ymgeisydd annibynnol yn eu hennill yn adlewyrchu'n agosach eu cyfran o'r bleidlais.

Felly bydd bron pob pleidlais o bob rhan o Gymru yn cyfrannu at gyfansoddiad terfynol y Senedd. Bydd hyn yn arwain at Senedd sy'n cynrychioli barn a dewisiadau pleidleiswyr yn well ledled Cymru.

Mae'r seddi'n cael eu dyrannu ar sail cyfran y pleidleisiau y mae pob plaid neu ymgeisydd annibynnol yn ei chael.

Mae'r system newydd yn golygu bod eich pleidlais yn fwy tebygol o helpu i benderfynu ar y canlyniad cyffredinol, oherwydd bydd seddi yn y Senedd yn cael eu dyrannu yn seiliedig ar gyfanswm cyfran y bleidlais.

**Bydd y newid yn gwneud eich pleidlais yn gryfach nag erioed.**

### Sut mae'n gweithio

/16 — Bydd Cymru yn cael ei rhannu yn 16 ardal ar gyfer etholiad 2026, sef **etholaethau**

= 6 — Bydd gan bob etholaeth **chwe 'sedd' yn y Senedd**, sy'n golygu y bydd chwe Aelod yn cael eu hethol ym mhob un.

= 8 — Bydd pleidiau gwleidyddol yn paratoi rhestrau gyda hyd at **wyth ymgeisydd** ar gyfer pob etholaeth. Gall ymgeiswyr annibynnol, hefyd, sefyll etholiad.

= 1 — Ar ddiwrnod yr etholiad, byddwch yn cael papur pleidleisio a bydd gennych **un bleidlais** dros y blaid neu'r ymgeisydd annibynnol yr hoffech eich cynrychioli yn y Senedd.

Bydd eich papur pleidleisio yn dangos y rhestr lawn o ymgeiswyr yn eich etholaeth, felly byddwch chi'n gallu gweld pwy sy'n sefyll dros bob plaid.

Os bydd plaid yn ennill digon o bleidleisiau, byddan nhw'n ennill un neu fwy o seddi yn y Senedd. Felly, os bydd plaid yn ennill tair sedd mewn etholaeth, bydd y tri pherson uchaf ar eu rhestr yn cael eu hethol i'r seddi hynny.

Os bydd ymgeisydd annibynnol yn ennill digon o bleidleisiau, bydd hefyd yn ennill sedd yn y Senedd.

# Sut mae etholaethau'n newid?

## Yn etholiad y Senedd yn 2026, bydd Cymru'n cael ei rhannu'n 16 o etholaethau newydd.


Bydd gan bob un o'r etholaethau newydd hyn chwe Aelod, sy'n golygu y bydd cyfanswm o 96 Aelod yn cael eu hethol i'r Senedd.

**Sut cafodd yr etholaethau newydd eu creu?**

Gwnaeth Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru greu'r ardaloedd newydd drwy baru 32 etholaeth Senedd y DU yn 16 etholaeth Senedd newydd. Cafodd ffactorau eraill eu hystyried gan gynnwys:

- Ffiniau llywodraeth leol presennol
- Cysylltiadau ffyrdd a thrafnidiaeth
- Nodweddion daearyddol fel afonydd a mynyddoedd
- Cysylltiadau lleol (gan gynnwys y defnydd o'r Gymraeg)

Cynhaliodd Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ddau ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynlluniau, a gwnaeth newidiadau yn seiliedig ar yr adborth a ddaeth i law. Cyhoeddwyd y ffiniau terfynol ym mis Mawrth 2025.




1. Bangor Conwy Môn
2. Clwyd
3. Fflint Wrecsam
4. Gwynedd Maldwyn
5. Ceredigion Penfro
6. Sir Gaerfyrddin
7. Gŵyr Abertawe
8. Brycheiniog Tawe Nedd
9. Afan Ogwr Rhondda
10. Pontypridd Cynon Merthyr
11. Blaenau Gwent Caerffili Rhymni
12. Sir Fynwy Torfaen
13. Casnewydd Islwyn
14. Caerdydd Penarth
15. Caerdydd Ffynnon Taf
16. Pen-y-bont Bro Morgannwg

# Cysylltu â ni

## Oes gyda chi gwestiynau, neu a ydych chi eisiau gwybod mwy am ein gwaith?

Cysylltwch â ni ar bob cyfrif gan ddefnyddio'r manylion isod neu dewch i'n gweld ym Mae Caerdydd i siarad â rhywun wyneb yn wyneb.


**www.senedd.cymru**

**cysylltu@senedd.cymru**

**0300 200 6565**

**@SeneddCymru**

**SeneddCymru**

**SeneddCymru**

**Y Senedd, Bae Caerdydd, CF99 1SN**